Ffyrdd o Weithio

BLAS O'R FFORDD RYDYM YN GWEITHIO

- Fel arfer bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn chwarterol.

- Bydd y Partneriaid Statudol canlynol yn mynychu'r cyfarfodydd:

    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
    - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
    - Cyfoeth Naturiol Cymru

  yn ogystal â chyfranogwyr a wahoddwyd o'r canlynol:

    - Gweinidog Cymru
    - Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
    - Cwmni Adsefydlu Cymunedau Cymru
    - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
    - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
    - Coleg Cambria
    - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
    - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Estynnir gwahoddiad i aelodau eraill ar gyfer eitemau / trafodaethau penodol ar y rhaglen.

- Bydd cyfarfodydd yn cael eu hwyluso gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Bydd papurau yn cael eu hanfon allan fel arfer o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.
- Bydd cyfarfodydd yn fyr a chanddynt ffocws pendant (dim mwy na 2 awr o hyd)
- Bydd nodiadau camau gweithredu drafft a log gweithredu yn cael eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfodydd i gael sylw arnynt.
- Bydd y rhaglenni yn agored ond bydd eitemau yn cael eu cymeradwyo gan y Cadeirydd.
- Mae disgwyliad y bydd unrhyw gamau gweithredu yn cael eu gwneud yn brydlon gan unigolion dynodedig.
- Mae swyddogaeth a chyfranogiad yr holl aelodau yn hanfodol.
- Yn y cyfarfodydd cynhelir trafodaethau agored a gonest.